# Gweithio ag Oedolion sy'n Agored i Niwed – Tystysgrif Addysg Uwch (Amser Llawn)

Bydd y rhaglen hon yn siwtio unigolion sydd yn gweithio neu'n gobeithio gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed.

**Cod UCAS:** L590

## Gofynion Mynediad

Mae'r meini prawf mynediad yn nodweddiadol, ond mae'r Coleg yn ystyried pob cais yn unigol, sy'n golygu y gallwn roi cynigion yn seiliedig ar gymwysterau, prof l personol a phro ad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas a^'ch cynnig, cysylltwch a^'n Ti^m Derbyniadau. Cynnig nodweddiadol: 2 Safon Uwch gradd C neu brof l MM mewn Diploma Lefel 3 BTEC a thri TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol). Mae gwiriad DBS uwch yn angenrheidiol ar gyfer y rhaglen hon, a chodir ta^l ychwanegol ar y myfyriwr am hynny.

## Rhagolygon Gyrfa

Bydd y cymhwyster hwn yn gwella cy eoedd gyrfa ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, yn arbennig o ran gweithio gydag asiantaethau gwirfoddol sy'n delio ag oedolion sy'n agored i niwed ac fel gweithwyr cynghori yn y Gwasanaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Gall myfyrwyr symud ymlaen i ddilyn Diploma Addysg Uwch mewn Iechyd Cymdeithasol neu Flwyddyn 2 BSc (Anrh) mewn Astudiaethau Gofal.

## Modiwlau'r cwrs

Bydd y rhaglen hon yn cynnwys darlithoedd, seminarau, gwaith prosiect, gweithdai a sesiynau tiwtorial. Mae modiwlau yn cynnwys: Cyd-destun ac Adnabod Cam-drin Oedolion sy'n Agored i Niwed, Deddfwriaeth a Pholisi mewn perthynas a^ Gweithio ag Oedolion sy'n Agored i Niwed, Eiriolaeth a Chynrychiolaeth, Gweithio ag Oedolion sy'n Agored i Niwed – Modiwl Ymarfer, Urddas ym maes Gofal, Ymarfer Myfyriol wrth Weithio ag Oedolion sy'n Agored i Niwed.

GRŴP COLEGAU NPTC GROUP OF COLLEGES

## Asesiad

Fel arfer bydd raid i chi gwblhau portffolios, cy wyniadau, astudiaethau achos a thasgau ysgrifenedig wrth i chi symud ymlaen drwy'r rhaglen.

## Costau Ychwanegol

Teithio i'ch lleoliad gwaith ac adref.

**DULL ASTUDIO**
FT

**LLEOLIAD**
Coleg Afan - 01639 648200

**HYD Y CWRS**
1Y

**FFIOEDD**
19/20 fees: £9,000